
PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY



# Pecyn Gweithgareddau Pasg 2021

## Yr Her Tŵr Wy

Yn y gweithgaredd hwn byddwch yn adeiladu tŵr sy'n gallu dal wy mor uchel â phosibl oddi ar y llawr.

Noder y gallai'r gweithgaredd hwn wneud llanast a dylid ei wneud o dan oruchwyliaeth oedolyn.

**Y Dasg**
Adeiladu tŵr a all ddal wy mor uchel oddi ar y llawr â phosibl.

Bydd angen i chi weld beth sydd gennych i'w ddefnyddio a beth gewch chi ei ddefnyddio o'r dewisiadau isod:

- Sbageti sych a Jelly Babies
- Ffyn lolipop a Blu-Tac
- Gwellt yfed a thâp selo
- Sgiwerau pren (heb y pwyntiau) a Malws Melys
- Papur a chlipiau papur
- Glanhawyr peipiau a phlastisin
- Papur newydd a thâp selo
- Pensiliau a llinyn

**Y Rheolau**

- Mae gennych 30 munud yn unig i adeiladu eich tŵr.
- Dim ond un o'r cyfuniadau uchod gewch chi eu defnyddio - nid allwch ddewis a dethol rhwng y parau hyn.
- Mae'n rhaid i'r tŵr sefyll ar ei ben ei hun (ni chaiff bwyso ar, na chael ei gefnogi gan, unrhyw beth arall).
- Ni chewch lynu'r tŵr i arwyneb (er enghraifft llawr neu fwrdd).
- Ni ddylid rhoi'r wy ar y tŵr nes y bydd y tŵr wedi'i orffen.
- Er mwyn llwyddo, mae'n rhaid i'r tŵr sefyll am un munud (60 eiliad) ar ôl i'r wy gael ei roi yn y tŵr.
- Caiff yr uchder ei fesur o waelod y tŵr i ran isaf yr wy.
- Mae'n rhaid i'r wy aros yn gyfan.
- Dylech olchi eich dwylo bob amser ar ôl gafael mewn wyau amrwd.

**Heriau Ychwanegol**

Gobeithio'n fawr eich bod wedi mwynhau'r gweithgaredd hwn hyd yma. Dyma rai awgrymiadau sut i roi mwy o her i'ch hun os hoffech:

1. Gwnewch y gwrthrych y mae'n rhaid i'r tŵr ei ddal yn rhywbeth trymach a/neu fwy.
2. Ceisiwch weld os allwch chi gyrraedd mesuriad o dros 50cm.
3. Ceisiwch adeiladu'r tŵr gyda phapur yn unig.